YSGOL BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU TOMOS EMLYN

Llongyfarchiadau calonnog i gyn disgybl sef, Tomos Emlyn Jones, gynt o Lanrug ar ennill ei le yng ngharafán Cymru dan 19 ar gyfer y twrnamaint dan 19 yn Slofenia ar ddiwedd mis Medi.
Y mae'r chwaraewr dawnus, sydd yn gefnwr gydag academi Oldham Athletic, wedi ei ddewis ar ôl serennu gyda'r tîm dan 19 Cymru, dan reolaeth Brian Flynn, mewn gemau cyfeillgar yn erbyn Bwlgaria ar ddechrau'r tymor.
Yn ystod ei amser ym Mrynrefail bu Tomos yn aelod o dîm pêl droed yr Ysgol enillodd Cwpan Cymru deirgwaith.
Y mae yn awr yn haneru ei amser rhwng hyfforddi gyda chlwb pêl droed Oldham Athletic ac astudiaethau BTEC yng ngholeg Bury.

Hogyn Brynrefs – da 'de